Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 11.11.2020

## Ymestyn y Cynllun Ffyrlo

Bydd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws – a elwir hefyd y cynllun Ffyrlo – yn parhau ar agor tan fis Mawrth 2021, a bydd gweithwyr cyflogedig yn derbyn 80% o'u cyflog cyfredol am yr oriau nad ydynt yn gweithio, hyd at uchafswm o £2,500. Am fwy o wybodaeth am y canllawiau newydd, gan gynnwys sut i hawlio am y Cynllun Cadw Swyddi ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/ymestyn-y-cynllun-ffyrlo

https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wage-costs-through-the-coronavirus-job-retention-scheme.cy

## Cyhoeddi cymhellion mawr newydd ar gyfer cyflogwyr i'w helpu i recriwtio prentisiaid

Mae Gweinidog yr Economi Ken Skates wedi cyhoeddi y bydd busnesau yng Nghymru yn gallu hawlio hyd at £3,000 am bob prentis newydd y maent yn ei recriwtio sydd dan 25 oed. Bydd y cymhelliant o £3,000, sydd â'r nod o helpu Cymru i adfer o effaith Covid-19, ar gael i fusnesau sy'n cyflogi prentis ifanc am o leiaf 30 awr yr wythnos. Gallai busnesau Cymru hefyd dderbyn £1,500 ar gyfer pob prentis newydd o dan 25 oed y maent yn ei gyflogi am lai na 30 awr yr wythnos. Am fwy, ewch i:

https://llyw.cymru/cyhoeddi-cymhellion-mawr-newydd-ar-gyfer-cyflogwyr-iw-helpu-i-recriwtio-prentisiaid

- Gweminar Prentisiaeth Gradd, 17 Tachwedd 2020 2:30pm-3:30pm

Ymunwch mewn gweminar rhyngweithiol wedi ei drefnu gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru i holi a chanfod sut allech elwa o Brentisiaethau Gradd wedi eu hariannu er budd eich cwmni. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/34SPBPs

## Cronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud yr ERF dal ar agor

Er bod elfen Grant Datblygu Busnes y Gronfa Cadernid Economaidd wedi'i rhewi, nid yw'r oedi hwn yn effeithio ar elfen gyntaf a llawer mwy y gronfa – y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud yr ERF. Mae Grantiau Ardrethi Annomestig y Cyfyngiadau a Grant Dewisol y Cyfyngiadau yn parhau ar agor. Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Grantiau-cloi.aspx

## Busnes@llandrillomenai – Facebook Live – 12.11.2020

Bydd Meleri Davies o Bartneriaeth Ogwen a Patrick Rimes o Gadwyn Ogwen yn ymuno â Julie Stokes-Jones a Heather Jones o Busnes@LlandrilloMenai am drafodaeth fyw. Darganfyddwch sut maent wedi gweithio gyda'i gilydd ers

mis Mawrth i gefnogi prosiectau cymunedol am 1:00pm, Dydd Iau 12 Tachwedd 2020. Tiwniwch i mewn i wylio'n fyw:

https://bit.ly/3eM4RAM

- Partneriaeth Ogwen: Sefydlwyd Partneriaeth Ogwen yn 2013, a hynny trwy gydweithio arloesol gan Gynghorau Cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygai i ddarparu gwasanaeth clercio i'r 3 chyngor ac i ddatblygu prosiectau cymunedol.

- Cadwyn Ogwen: Mae Cadwyn Ogwen yn bartneriaeth o fusnesau lleol sy'n cydweithio i werthu a danfon eu cynnyrch yn lleol. Bydd y prosiect yma'n helpu pobl leol i gael cynnyrch wedi eu danfon i'w cartrefi yn ystod argyfwng Covid-19, ond bydd hefyd yn cefnogi busnesau lleol a'r gadwyn gyflenwi yn lleol tu hwnt i Covid-19. Am fwy o wybodaeth am Cadwyn Ogwen, ewch i:

https://www.ogwen.cymru/cy/cadwyn-ogwen/

# Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Mae dinasyddion o Ewrop yn rhan annatod o weithlu'r sector twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn annog pob busnes i helpu eu gweithwyr o'r UE i wneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Os ydych yn cyflogi dinasyddion o'r UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu o'r Swistir, rhaid iddyn nhw a'u teuluoedd wneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE er mwyn parhau i fyw a gweithio yn y DU ar ôl 30 Mehefin 2021:

https://www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families

Mae Llywodraeth Cymru wedi uno mewn partneriaeth â nifer o wasanaethau cynghori i'ch galluogi chi i helpu eich gweithwyr o Ewrop i gael gafael ar y cymorth a allai fod ei angen arnynt i wneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a'ch helpu i gadw eich gweithwyr presennol. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys cymorth digidol gyda cheisiadau neu help gydag ymholiadau sylfaenol ynghylch cymhwysedd oddi wrth Gyngor ar Bopeth.

http://www.eusswales.com/cy/

Mae cyngor mewnfudo arbenigol rhad ac am ddim hefyd ar gael ar gyfer pobl sydd ag achosion cymhleth, a ddarperir gan gwmni cyfreithiol Newfields Law:

https://newfieldslaw.com/information/eu-settlement-scheme/

Ceir rhagor o wybodaeth am Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar wefannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU:

https://llyw.cymru/paratoi-cymru/dinasyddion-yr-ue

https://www.gov.uk/government/collections/eu-settlement-scheme-employer-toolkit

# Rheoliadau coronafeirws o 9 Tachwedd 2020

Ar gyfer y canllawiau ynghylch rheoliadau'r coronafeirws fydd yn eu lle o ddydd Llun 9 Tachwedd 2020 ewch i:

https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau

Ar gyfer y ddeddfwriaeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ewch i:

https://llyw.cymru/rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-4-cymru-2020

Bydd bron i pob busnes yn cael ailagor, ond hefo mesurau diogelwch mewn lle i weithredu mewn modd saff. Mae busnesau yng Nghymru wedi cael eu hannog i arddangos posteri cod QR ar gyfer ap Covid-19 y GIG yn eu mangreoedd busnes. Serch hynny, mae'n ofynnol i fusnesau sy'n gweithredu mewn lleoliadau risg uchel gasglu gwybodaeth gyswllt. Mae lleoliadau risg uchel yn cynnwys lle bydd cwsmeriaid ac ymwelwyr yn treulio amser hir ar y safle, a/neu o bosibl yn dod i gysylltiad agos â phobl y tu allan i'w cartref (neu aelwyd estynedig os ydynt wedi ffurfio un). Mae enghreifftiau o leoliadau risg uchel y disgwylir iddynt gasglu a chadw gwybodaeth gyswllt yn cynnwys:

- lletygarwch, gan gynnwys tafarndai, bariau, bwytai a chaffis
- sinemâu

- gwasanaethau cysylltiad agos, gan gynnwys siopau trin gwallt a siopau barbwr, gwasanaethau harddwch, gwasanaethau tatŵio, therapyddion chwaraeon a thylino
- pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd o dan do, campfeydd, sbâs, a chanolfannau neu gyfleusterau hamdden eraill o dan do
- casinos
- neuaddau bingo
- mannau addoli

- Gwybodaeth i'w chasglu gan y busnesau hyn

Y gofyniad cyfreithiol ydi casglu enw a gwybodaeth person sy'n ddigonol i alluogi cysylltu â'r person, i'w hysbysu y gallai fod wedi bod yn agored i glefyd coronafeirws yn y fangre (gan gynnwys rhif ffôn a'r dyddiad a'r amser yr oedd y person yn y fangre).

- Mae gwybodaeth am rheoliadau'r Coronafeirws o 9 Tachwedd 2020 a sut mae caffis, bwytai, tafarndai a bariau yn gallu gweithredu'n ddiogel dan do ar gael yma:
  https://bit.ly/3ki4wqB

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru